CYFARFOD COMISIWN FFINIAU LLYWODRAETH LEOL I GYMRU A GYNHALIWYD DDYDD MAWRTH 11 AWST 2009 A DYDD LLUN 17 AWST 2009 YN NHŶ CARADOG, CAERDYDD.

Comisiynwyr
Mr P J Wood (Cadeirydd)
Y Parch. H M Davies (Dirprwy Gadeirydd)
Mr J Bader (Aelod)

Ysgrifenyddiaeth
Mr E H Lewis (Ysgrifennydd)
Mr S Halsall
Mr D Carr
Mrs L Brough
Mrs A Prescott-Bird

1. DATGANIAD BUDDIANNAU

1.1 Ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau newydd. Datganodd y Cadeirydd fuddiant yn eitem 5 ar yr agenda, sef Arolwg Etholiadol Castell-nedd Port Talbot gan fod ei wraig yn Gynghorydd Cymunedol ar gyfer Cymuned Crynant. **Cytunwyd** na fyddai'n rhaid i'r Cadeirydd adael yn ystod y drafodaeth.

2. COFNODION CYFARFOD Y COMISIWN A GYNHALIWYD AR 15 GORFFENNAF 2009

2.1 Cytunwyd ar y rhain.

3. MATERION YN CODI

Datganiad Rheoli a'r Memorandwm Ariannol

3.1 Cadarnhawyd y Datganiad Rheoli a'r Memorandwm Ariannol (MSFM) a'i lofnodi gan yr Ysgrifennydd a'r Is-adran Noddi.

Cynadleddau

3.2 Archebwyd cynhadledd Un Llais Cymru a byddai'n cael ei gynnal 10 Hydref 2009 am 10 am. **Cytunwyd** y byddai Mr Bader yn ei mynychu ynghyd â'r Ysgrifennydd a dau Swyddog.

Fideogynadledda

3.3 Cyfarfu'r Ysgrifennydd ag Amgueddfa Genedlaethol Cymru a chadarnhawyd y gallai'r Comisiwn ddefnyddio eu cyfleusterau fideogynadledda am ffi enwol. **Cytunwyd** y byddai'r Comisiwn yn defnyddio'r cyfleuster hwn ar sail achlysurol pan fyddai angen.

Amserlen Arolygon Etholiadol

3.4 Roedd Cyngor Dinas a Sir Caerdydd a sawl Cyngor Cymuned wedi gofyn am estyniad i'r dyddiad terfyn ar gyfer cyflwyno cynrychiolaethau Cychwynnol ar gyfer Arolygon Etholiadol. **Cytunwyd** caniatáu estyniad o bedair wythnos, hyd at 8 Hydref 2009 a hysbysir hwy oll am yr estyniad.

3.5 Trefnwyd y cyfarfod cyflwyno i Gyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful ar gyfer 16 Medi 2009 am 5.30 pm. **Cytunwyd** y byddai Mr Bader ynghyd â'r Ysgrifenyddiaeth yn mynychu'r cyfarfod.

3.6 Trefnwyd y cyfarfod cyflwyno i Gyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr ar gyfer 16 Medi 2009 am 2 pm. **Cytunwyd** y byddai'r Cadeirydd ynghyd â'r Ysgrifenyddiaeth yn mynychu'r cyfarfod.

3.7 Roedd dyddiadau ac amserau ar gyfer cyflwyniadau i Bowys a Gwynedd i'w cadarnhau gyda'r Cynghorau a gwneir ymdrechion i geisio sicrhau dyddiad gyda Gwynedd a fyddai'n golygu y gallai'r Dirprwy Gadeirydd fynychu'r cyfarfod.

Arolygon Cymunedol

3.8 Mae Cyngor Sir Penfro wedi cyflwyno ei adroddiad Arolwg Cymunedol. Derbyniwyd cais oddi wrth Gynghorydd am gyfarfod â'r Comisiwn a hefyd cais gan Gyngor Cymuned Herbranston am estyniad o dair wythnos i'r terfyn amser ar gyfer cynrychiolaethau. **Cytunwyd** caniatáu'r estyniad 3 wythnos. **Cytunwyd** y byddai'r Cadeirydd a'r Ysgrifennydd yn asesu'r angen am gyfarfod â'r Cynghorydd.

3.9 Disgwylir y bydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen yn cyflwyno'i Adroddiad Cymunedol i'r Comisiwn yn fuan.

3.10 Ni chlywyd dim oddi wrth Gyngor Sir Caerfyrddin ynghylch eu Harolygon Cymunedol. **Cytunwyd** y byddai'r Cadeirydd yn ysgrifennu at Gyngor Sir Caerfyrddin i'w hysbysu ei bod yn rhy hwyr bellach i'r Comisiwn dderbyn unrhyw newidiadau i'w Cymuned ar y cam hwn.

Adroddiad Blynyddol

3.11 Nodwyd na ellid diwygio cyfrifon cryno 2008/09 gan eu bod eisoes wedi'u cyflwyno i Archwiliwr Cyffredinol Cymru. **Cytunwyd** diwygio'r cyfrifon cryno ar gyfer y flwyddyn nesaf er mwyn osgoi dyblygu'r wybodaeth a geir yn yr adroddiad Blynyddol.

4. AROLWG ETHOLIADOL CASNEWYDD – ADRODDIAD CYNIGION DRAFFT

4.1 Gan mai dyma'r adroddiad cyntaf i'w ddrafftio a'i gyhoeddi, awgrymwyd a chytunwyd ar sawl newid cyffredinol i fformat yr adroddiad, fel a ganlyn:

- Defnyddio enwau'r adrannau etholiadol presennol fel penawdau ar gyfer y cynigion a byddai'r enwau newydd ar gyfer yr adrannau etholiadol arfaethedig yn cael eu hawgrymu ar ddiwedd y testun.

- Nodwyd nad oedd yr enwau Cymraeg a defnyddiwyd yn yr adroddiadau yr un â'r enwau Cymraeg a ddefnyddir yn lleol. Roedd hyn oherwydd bod yr enwau lleoedd a defnyddir gan y Comisiwn yn rhai a benodir yng Ngorchmynion Cynulliad Cymru. **Cytunwyd** y byddai'r Ysgrifenyddiaeth yn codi'r mater hwn gyda'r Is-adran Noddi.

- Dylai'r dudalen gynnwys restru'r Atodiadau.
- Dylid cyfeirio at y Comisiwn fel enw lluosog yng nghorff yr adroddiad.
- Cynhwysir llythyr Gweinidog Cynulliad Cymru fel atodiad yn yr adroddiad gan gynnwys y canlynol yng nghorff yr adroddiad yn adran tri - 'eglurwyd hyn ymhellach gan lythyr y Gweinidog dros Lywodraeth Leol, dyddiedig 12 Mai 2009, a atodir yn Atodiad x'.
- Dylai'r atodiadau ar gyfer y trefniadau etholiadol presennol a'r rhai arfaethedig gynnwys dadansoddiad o amrywiant cyfartalog y Sir.
- Addasir y Rhestr Termau o'r llawlyfr Arweiniad a'i chynnwys fel atodiad yn yr adroddiad.
- Newidir y rhagair i gyd-fynd â'r cyngor cyfreithiol a dderbyniwyd.

4.2 **Cytunwyd** cyflwyno'r newidiadau hyn a'u dosbarthu i aelodau'r Comisiwn i'w cymeradwyo. Cytunwyd ar yr adroddiad yn ddarostyngedig i'r newidiadau a restrwyd yn 4.1.

5. AROLWG ETHOLIADOL CASTELL-NEDD PORT TALBOT – ADRODDIAD CYNIGION DRAFFT

5.1 Cytunodd y Comisiwn â'r adroddiad cynigion drafft yn ddarostyngedig i'r newidiadau a restrwyd yn 4.1.

6. AROLWG ETHOLIADOL SIR DDINBYCH – ADRODDIAD CYNIGION DRAFFT

6.1 Cytunodd y Comisiwn â'r adroddiad cynigion drafft yn ddarostyngedig i'r newidiadau a restrwyd yn 4.1.

7. AROLWG ETHOLIADOL SIR Y FFLINT – YSTYRIAETH O GYNLLUNIAU PELLACH

7.1 Ystyriodd y Comisiwn y cynlluniau ar gyfer Sir y Fflint a phenderfynodd mai cynllun 5 oedd yn rhoi'r lefel gyffredinol orau o gynrychiolaeth yn gyffredinol. Fodd bynnag, teimlwyd bod lle posibl i'w wella o ran cyfuno Cymunedau â chysylltiadau tebyg. **Cytunwyd** ystyried dwy gyfres o gynigion yn y cyfarfod nesaf, y cyntaf yn seiliedig ar gynllun 5 a'r ail yn seiliedig ar yr addasiad awgrymedig i gynllun 5.

8. AROLWG ETHOLIADOL RHONDDA CYNON TAF – YSTYRIAETH O'R CYNRYCHIOLAETHAU A'R CYNLLUNIAU CYCHWYNNOL

8.1 Ystyriodd y Comisiwn y cynlluniau ar gyfer Rhondda Cynon Taf a phenderfynodd mai cynllun 1 oedd yn rhoi'r lefel gyffredinol orau o gynrychiolaeth yn gyffredinol. Fodd bynnag, teimlwyd ei bod yn bosibl i gael cydraddoldeb democrataidd gwell.

9. AROLWG ETHOLIADOL YNYS MÔN – YSTYRIAETH O'R CYNRYCHIOLAETHAU A'R CYNLLUNIAU CYCHWYNNOL

9.1 Ystyriodd y Comisiwn y cynlluniau ar gyfer Ynys Môn a phenderfynodd mai cynllun 2 oedd y gorau o ran cydraddoldeb cymunedol a diwylliannol. Fodd bynnag, teimlwyd ei bod yn bosibl i gael cydraddoldeb democrataidd gwell. Ar ôl trafodaeth, awgrymwyd cynigion pellach a **chytunwyd** y byddai'r Ysgrifenyddiaeth yn cyflwyno cynllun pellach yn seiliedig ar y rhain.

[Gohiriwyd y cyfarfod hyd at 17 Awst.]

10. AMSERLEN AROLYGON

10.1 Nodwyd y diweddariadau i'r amserlen arolygon. Ystyriwyd y gallai fod mwy o bwysau ar yr amserlen arolygon gan ei bod yn debygol y byddai'r Adroddiadau drafft ar gyfer yr haen gyntaf o arolygon yn cynhyrchu nifer mawr o gynrychiolaethau. Bu rhywfaint o lithriad oherwydd yr angen am gynlluniau ychwanegol ar gyfer yr arolygon ac oherwydd aros am orchmynion arolygon cymunedol gan Gynulliad Cymru. Ystyriwyd y gallai cyfarfodydd interim bob pythefnos gyflymu'r broses arolwg. **Cytunwyd** y byddai'r Comisiwn yn cynnal cyfarfodydd interim rhwng y cyfarfodydd misol yn ôl yr angen a defnyddir y cyfarfodydd interim hyn ar gyfer gwneud penderfyniadau arolwg penodol yn unig. **Cytunwyd** cychwyn yr arfer o gynnal cyfarfodydd interim ym mis Tachwedd a'i adolygu ym mis Ionawr 2010. **Cytunwyd** ystyried fideogynadledda yn fodd i gynnal cyfarfodydd interim.

11. ADRODDIAD SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU (SAC) – CYNNYDD EI ROI AR WAITH

11.1 Hysbysodd yr Ysgrifennydd y cyfarfod bod y rhan fwyaf o'r argymhellion a wnaed gan SAC naill ai wedi'u cwblhau neu eu bod yn cael eu cyflwyno. Fodd bynnag, mae'n bosibl y bydd angen cymorth allanol ar gyfer cyflwyno system gwybodaeth rheoli a dylid ystyried y posibilrwydd o gyflogi ymgynghorwyr i lunio system at y diben hwn. **Cytunwyd** darparu adroddiad i SAC drwy Is-adran Noddi'r Comisiwn erbyn diwedd y flwyddyn ynghylch rhoi'r argymhellion ar waith.

12. ADRODDIAD BLYNYDDOL A GWAHODDIAD DIGWYDDIAD GWEITHDY

12.1 Ystyriodd y Comisiwn y gwahoddiad gweithdy a gwnaeth rai newidiadau i'r geiriad.

13. ADRODDIAD CYLLID – CHWARTER CYNTAF 2009-10

13.1 Nododd y Comisiwn y sefyllfa ar ddiwedd chwarter cyntaf 2009-10 a ddangosodd danwariant rhesymol.

14 DATGANIAD DRAFFT I'R WASG

14.1 Nododd y Comisiwn y Datganiad Drafft i'r Wasg a luniwyd gan yr ysgrifennydd yn dilyn ceisio cyngor gan swyddogion cysylltiadau Amgueddfa Genedlaethol Cymru. Dywedodd yr Ysgrifennydd fod swyddogion Amgueddfa Genedlaethol Cymru wedi gwneud sawl awgrym ynghylch cynnwys y datganiadau a'u bod wedi'i gynghori bod defnyddio'r rhyngrwyd yn dod yn fwy pwysig na phapurau newydd a'u bod wedi awgrymu y dylai'r Comisiwn wneud defnydd llawn o'r cyfrwng hwnnw.

14.2 Ystyriwyd y gellid cysylltu â gorsafoedd radio lleol pan fyddai'r Comisiwn yn cyhoeddi cynigion a gellir briffio'r cyfryngau cenedlaethol ar amcanion cyffredinol ar gyfer yr arolygon. **Cytunwyd** y dylid cynnal cyfarfod â chynrychiolwyr o'r prif gyrff cyfryngol yng Nghymru er mwyn eu briffio am amcanion y Comisiwn ar gyfer yr arolygon.

14.3 Ystyriodd Aelodau y gallai defnyddio ymgynghorydd gynorthwyo'r broses. **Cytunwyd** y byddai'r Ysgrifenyddiaeth yn archwilio p'un a oedd unrhyw ymgynghorwyr Cysylltiadau Cyhoeddus addas yng Nghymru a allai ymdrin â Chymru gyfan a chost eu gwasanaethau.

15. UNRHYW FATER ARALL

15.1 Llongyfarchodd y Comisiwn yr Ysgrifenyddiaeth ar lwyddiant eu cais am dystysgrif Buddsoddwyr mewn Pobl.

16. DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

16.1 Pennwyd dyddiadau'r cyfarfodydd nesaf fel a ganlyn:

Dydd Iau 17 Medi 2009
Dydd Mercher 7 / 8 Hydref 2009 (ar ôl y Gweithdy)
Dydd Mawrth 24 Tachwedd 2009 (ar ôl y Gweithdy)
Dydd Mercher 16 Rhagfyr 2009 (ar ôl y Gweithdy).